LOCAL GOVERNMENT BOUNDARY COMMISSION FOR WALES

(p) JS
4010·5
(429·53)

# REVIEW OF
# DISTRICT ELECTORAL ARRANGEMENTS

# REPORT AND PROPOSALS FOR
# BOROUGH OF NEATH

# ADRODDIAD A CHYNIGION AR GYFER
# BWRDEISTREF NEDD

# AROLWG O
# DREFNIADAU'R ETHOLIADAU DOSBARTH

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

LOCAL GOVERNMENT BOUNDARY COMMISSION FOR WALES

# REVIEW OF DISTRICT ELECTORAL ARRANGEMENTS

## REPORT AND PROPOSALS FOR BOROUGH OF NEATH

## ADRODDIAD A CHYNIGION AR GYFER BWRDEISTREF NEDD

Class No. (P) JS 4010.5 (429.53)
Accession No. 82-475
Please return or renew by CP 86

## AROLWG O DREFNIADAU'R ETHOLIADAU DOSBARTH

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru

Local Government Boundary Commission for Wales

CADEIRYDD / CHAIRMAN

Lady Crawshay

DIRPRWY GADEIRYDD / DEPUTY CHAIRMAN

Mr Idris Davey BSc

AELODAU / MEMBERS

Mr D W C Morgan LLB
Mr R T D Williams BA LLB

AT:

Y GWIR ANRHYDEDDUS WILLIAM WHITELAW CH MC AS
YSGRIFENNYDD GWLADOL YR ADRAN GARTREF

AROLWG O DREFNIADAU'R ETHOLIADAU DOSBARTH

ADRODDIAD A CHYNIGION AR GYFER BWRDEISTREF NEDD

1. Yr ydym ni, Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, wedi cwblhau'r arolwg o drefniadau'r etholiadau dosbarth ar gyfer Bwrdeistref Nedd yn Sir Gorllewin Morgannwg ac yn cyflwyno'n Cynigion Terfynol ar gyfer trefniadau etholiadol newydd o fewn y Fwrdeistref.

2. Mae gan Fwrdeistref Nedd ryw 51,900 o etholwyr ac fe'i rhennir ar hyn o bryd yn 16 ward sy'n ethol 33 cynghorydd. Amlinellir y fframwaith presennol yn Atodiad 3.

3. Mae'n ofynnol, yn ôl Atodiad 10 Deddf Llywodraeth Leol 1972, i ni arolygu trefniadau etholiadol rhyw ddosbarth cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi'i benderfyniad terfynol ar yr olaf o'r gorchmynion y bwriada eu gwneud ynglŷn â'r cymdeithasau o fewn y dosbarth hwnnw o ganlyniad i'r Arolwg Cymdeithas Arbennig. Mae adran 60 y Ddeddf yn gosod canllawiau'r drefniadaeth y mae'n rhaid eu dilyn wrth gynnal yr arolwg ac yr ydym wedi mabwysiadu'r drefniadaeth hon a eglurir yn fanwl yn ein Hadroddiad Rhif 3, dyddiedig 2 Chwefror 1977.

4. Mae'n rhaid i ni ystyried ein trefniadau etholiadol ar gyfer unrhyw ddosbarth yn unol â darpariaethau adran 78 Deddf Llywodraeth Leol 1972 y mae is-adran (2) ohoni'n ei gwneud yn ofynnol i ni, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, gydymffurfio â'r rheolau a nodwyd yn Atodiad 11 y Ddeddf. Mae'r rheolau hyn (paragraff 3(2) yr Atodiad) yn pennu -

> O ystyried unrhyw newid yn nifer neu ddosraniad yr etholwyr llywodraeth leol mewn dosbarth sy'n debyg o ddigwydd yn ystod y cyfnod o bum mlynedd yn union ar ôl arolwg,



TO:

THE RT HON WILLIAM WHITELAW CH MC MP
SECRETARY OF STATE FOR THE HOME DEPARTMENT

REVIEW OF DISTRICT ELECTORAL ARRANGEMENTS

REPORT AND PROPOSALS FOR THE BOROUGH OF NEATH

1. We, the Local Government Boundary Commission for Wales, have completed the review of district electoral arrangements for the Borough of Neath in the County of West Glamorgan, and present our Final Proposals for new electoral arrangements within the Borough.

2. The Borough of Neath has an electorate of approximately 51,900 and is at present divided into 16 wards returning 33 councillors. The present structure is outlined in Appendix 3.

3. We are required by Schedule 10 to the Local Government Act 1972, to review the electoral arrangements of a district as soon as practicable after the Secretary of State has announced his final decision on the last of the orders he proposes to make in respect of the communities in that district consequent upon the Special Community Review. Section 60 of the Act lays down procedural guidelines which are to be followed in carrying out the review, and we have followed this procedure which is explained in detail in our Report No 3, dated 2 February 1977.

4. We are obliged to consider our electoral arrangements for a district in accordance with the provisions of section 78 of the Local Government Act 1972, which requires us by subsection (2), to comply, as far as is reasonably practicable, with the rules set out in Schedule 11 to the Act. These rules, (paragraphs 3(2) of the Schedule), require that -

> Having regard to any change in the number or distribution of local government electors of a district likely to take place within the period of five years immediately following a review,

a. y bydd nifer yr etholwyr llywodraeth leol, o'i gymharu â nifer y cynghorwyr a etholir, yr un fath, neu mor agos â phosibl, ym mhob ward yn y dosbarth;

b. mewn dosbarth, y bydd pob ward mewn cymdeithas sydd â chyngor cymdeithas (p'un ai ar wahân neu'n gyngor cyffredin) yn dod yn gyfan gwbl o fewn un ward yn y dosbarth;

c. mewn dosbarth, y bydd pob cymdeithas sydd heb ei rhannu'n wardiau cymdeithas yn dod yn gyfan gwbl o fewn un ward yn y dosbarth.

Yn unol â'r rheolau hyn, mae hefyd yn ofynnol i ni roi sylw (a) i'r angen am bennu ffiniau sydd ac a fydd yn hawdd eu hadnabod a (b) i unrhyw gysylltiadau lleol a gâi eu torri wrth bennu unrhyw ffin arbennig. Gwnaethom ystyried y ddwy ffactor hyn wrth ddiffinio'r cymdeithasau a'r wardiau cymdeithas newydd yn ystod Arolwg Cymdeithas Arbennig y Fwrdeistref.

5. Nid yw Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ynglŷn â maint cynghorau dosbarth. Yn ein Hadroddiad Rhif 3 (paragraff 13, o dan y pennawd "Maint y Cynghorau"), tynnwyd sylw at yr amrywiaeth sylweddol yn y gynrychiolaeth ar lefel ddosbarth yng Nghymru, a dywedwyd mai'n barn ar y pryd oedd bod yr amrywiaeth yn fwy nag yr oedd eisiau iddi fod ond mai anaddas fyddai ceisio safoni'r aelodaeth.

6. Fe'n rhwystrir gan baragraff 13 Atodiad 10 y Ddeddf rhag arolygu trefniadau etholiadol unrhyw sir tan ar ôl gwneud y gorchymyn olaf ynglŷn â'r trefniadau etholiadol ar gyfer y dosbarthau o fewn y sir honno. Mae'r rheolau ar gyfer trefniadau etholiadol y siroedd, a geir ym mharagraff 1 Atodiad 11 y Ddeddf, yn debyg iawn i'r rhai ar gyfer trefniadau etholiadaol y dosbarthau. Ond mae effaith y cyfyngiadau'n fwy llym o lawer oherwydd darpariaethau adran 25(2)(a) y Ddeddf sy'n pennu y dylai pob rhanbarth etholiadol o fewn y siroedd ethol un cynghorydd yn unig. Ein nod fydd sicrhau y caiff pob dosbarth mewn sir ei gynrychioli'n briodol ar y cyngor sir.



a. the ratio of the number of local government electors to the number of councillors to be elected shall be, as nearly as may be, the same in every ward of the district;

b. in a district every ward of a community having a community council (whether separate or common) shall lie wholly within a single ward of the district;

c. in a district every community which is not divided into community wards shall lie wholly within a single ward of the district.

Subject to these rules, we are required also to have regard to (a) the desirability of fixing boundaries which are and will remain easily identifiable and (b) any local ties which would be broken by the fixing of any particular boundary. We took account of these two factors when we defined the new communities and community wards during the Special Community Review of the Borough.

5. The Local Government Act 1972 does not contain any provisions concerning the size of district councils. In our Report No 3 (paragraph 13 headed "Size of Council"), we drew attention to the considerable disparity in representation at district level in Wales, and said that our provisional view was that the range of differences was greater than it need be but that it would be inappropriate to try to establish a standardised scale of membership.

6. We are precluded by paragraph 13 of Schedule 10 to the Act from reviewing electoral arrangements for counties until after the last order has been made in respect of the electoral arrangements for the districts in a county. The rules for county electoral arrangements contained in paragraph 1 of Schedule 11 to the Act are very similar to those for district electoral arrangements. However, the constraints are made far more rigid by the provisions of section 25(2)(a) of the Act, which require that each county electoral division should return one councillor only. It will be our aim to ensure that each district in a county is properly represented on the county council.

7. Ar 16 Mehefin 1980, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ei benderfyniad terfynol ar yr olaf o'r gorchmynion y bwriada eu gwneud o ganlyniad i'r Arolwg Cymdeithas Arbennig o Fwrdeistref Nedd. Yn unol â'r drefniadaeth a gyhoeddwyd gennym, gwnaethom ysgrifennu ar 31 Gorffennaf 1980 at Gyngor Bwrdeistref Nedd, Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg, holl gynghorau cymdeithas yr ardal, Aelod Seneddol yr etholaeth leol, cymdeithasau'r awdurdodau lleol a'r pleidiau gwleidyddol, i ddweud wrthynt ein bod yn bwriadu bwrw ymlaen â'r arolwg ac yn gofyn am eu sylwadau, gan gynnwys sylwadau ynglŷn â maint priodol y Cyngor Bwrdeistref newydd. Yn ogystal, gofynnwyd i'r Cyngor Bwrdeistref roi gwybod i ni am nifer yr etholwyr ym mhob cymdeithas a ward gymdeithas newydd ac amcangyfrif nifer yr etholwyr ar gyfer pob un o'r ardaloedd hynny ym 1986. Gwnaethom hefyd gyhoeddi mewn papurau newydd lleol yn cylchredeg yn y Fwrdeistref ein bwriad i gynnal yr arolwg.

Crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd cyn llunio'r Cynigion Drafft

8. Dywedai Cyngor Bwrdeistref Nedd fod maint presennol y Cyngor o 33 aelod fwy neu lai'n gywir yn eu barn hwy, ond na fyddent yn gwrthwynebu newid bach yn yr aelodaeth pe bai raid wrth un er mwyn sicrhau cynrychiolaeth gytbwys rhwng y wardiau. Dangosai eu hamcangyfrifon nad oedd nifer yr etholwyr ym mhob ward yn debyg o newid ryw lawer: yr eithriadau oedd Wardiau Cefnsaeson a Chrynallt yng Nghymdeithas Castell-nedd lle'r oedd ystadau preswyl preifat yn cael eu hadeiladu - datblygiad a gwblheid, yn ôl pob tebyg, erbyn 1985. Yn yr un modd, yn Ward De Bryn-coch yng Nghymdeithas Blaenhonddan y ceid yr unig ddarn mawr o dir â chaniatâd cynllunio lle y gallai gwaith ddechrau cyn 1985 a thrwy hynny, efallai, effeithio ar nifer yr etholwyr.

9. Ni chawsom gynllun ffurfiol gan y Cyngor Bwrdeistref. Cyflwynodd Clerc a Phrif Swyddog Gweithredol y Fwrdeistref adroddiad rhagarweiniol i Bwyllgor Ffiniau'r Cyngor. Yna, cyflwynodd Grŵp Llafur Cyngor Bwrdeistref Nedd i ni gynllun etholiadol y cytunwyd arno, meddid, gan y pleidiau gwleidyddol eraill ar y Cyngor Bwrdeistref, ynghyd â chopi o adroddiad y lerc i Bwyllgor Ffiniau'r Cyngor. (Gweler Atodiad 4).

10. Ni wnaeth Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg unrhyw sylwadau ynglŷn â maint y



7. The Secretary of State for Wales announced on 16 June 1980 his final decision on the last of the orders he proposes to make consequent on the Special Community Review of the Borough of Neath. We, in accordance with our published procedure, wrote on 31 July 1980 to Neath Borough Council, West Glamorgan County Council, all community councils in the area, the Member of Parliament for the local constituency, the local authority associations and political parties informing them of our intention to proceed with the review and requesting their views, including views on the appropriate size of the new Borough Council. In addition we asked the Borough Council to provide us with the number of electors in each new community and community ward and the estimated number of electors for each of those areas in 1986. We also published our intention to conduct the review in local newspapers circulating in the Borough.

Summary of representations received prior to draft proposals

8. Neath Borough Council stated that in their view the present size of the Council of 33 members was about right, but they would not object to a minor adjustment in membership if this was required for the purpose of achieving a proper balance of ward representation. Their estimates showed that the electorate of each ward was unlikely to change very much; the exceptions being in the Cefn Saeson and Crynallt Wards of the Community of Neath, where private residential estates were under construction and in all probability would be completed by 1985. Similarly the Bryncoch South Ward of the Community of Blaenhonddan contained the only large area of land with planning permission where work might start before 1985 and which could affect the size of the electorate.

9. The Borough Council did not submit a formal scheme to us. The Clerk and Chief Officer of the Borough presented a preliminary report to the Boundaries Committee of the Council. The Neath Borough Council Labour Group then submitted an electoral scheme to us, which, they said, had the agreement of the other political parties on the Borough Council and this was accompanied by a copy of the Clerk's report to the Boundaries Committee of the Council. (See Appendix 4).

10. West Glamorgan County Council made no observations on the size of the

Cyngor Bwrdeistref. Barn yr Aelod Sirol dros ardaloedd Llanilltud Fach, Gnoll, Cimla Isaf a Glannant oedd y dylai pob un o'r ardaloedd hyn fod ag un cynghorydd dosbarth, am y cynrychiolid y cylch cyfun ar y pryd gan bedwar cynghorydd dosbarth ac na allai'r etholwyr, felly, uniaethu'u hunain ag un cynghorydd arbennig. Yn ogystal, cyflwynodd y Cyngor Sir, er gwybodaeth, nodyn ar ddatblygiadau tai yn ardal Castell-nedd yn y dyfodol, a gadarnhâi sylwadau'r Cyngor Bwrdeistref.

11. Yn eu sylwadau hwy, dywedai Grŵp Plaid Lafur Cyngor Bwrdeistref Nedd eu bod, wrth benderfynu'r pwyntiau yr oeddent am eu gwneud, wedi cadw mewn cof Adroddiad Rhif 3 y Comisiwn, Atodiad B, a gynhwysai'r rheolau oedd i'w dilyn wrth ystyried trefniadau etholiadol y dosbarthau. Nodent nad oedd awgrymiadau'r Clerc ar gyfer Wardiau Gogledd a De Tref Castell-nedd a Chymdeithas Llansawel yn cydnabod bodolaeth cymdeithasau o fewn yr ardal a'u bod yn methu cymryd i ystyriaeth:-

i. realiti ffordd Cwm Afan/Cimla fel llinell rannu rhwng cymdeithasau;

ii. bod cydberthynas glòs rhwng dwy ward gymdeithas Penrhiwtyn a Melincryddan ac y dylid eu cynnwys yn yr un ward ddosbarth;

iii. nad oedd etholwyr Penrhiwtyn yn ystyried eu hunain yn rhan o Gymdeithas Llansawel. Dywedent y cydnabyddid hyn gan y Comisiwn yn yr Arolwg Cymdeithas Arbennig a gynigiai gymdeithas ar wahân ar gyfer Llansawel, heb gynnwys Penrhiwtyn.

Ychwanegent fod un o gynghorwyr Ward y Gogledd ar y pryd yn cytuno ag awgrym y Clerc y dylid cyfuno Wardiau Cefnsaeson a Chrynallt oherwydd eu cydberthynas glòs.

12. Dywedai Grŵp y Blaid Lafur mai barn yr aelodau lleol oedd na ddylid cyfuno Dulais ac Onllwyn at ddibenion etholiadau dosbarth. Gwahanwyd yr ardaloedd hyn at ddibenion cyngor cymdeithas ac yr oedd y ddwy gymdeithas yn wahanol a phlwyfol iawn yn eu hagwedd at faterion llywodraeth leol. Gwrthwynebai'r



Borough Council. The view taken by the County Member for the Llantwit, Gnoll, Lower Cimla and Glannant areas was that each of these areas should have one district councillor since the combined area was at present represented by four district councillors and the electors were therefore unable to identify themselves with one councillor. The County Council also submitted, for information, a note on future housing development in the Neath area, which confirmed the observations of the Borough Council.

11. In their submission, the Neath Borough Council Labour Party Group said that in determining their comments they had had regard to the Commission's Report No 3, Appendix B, which contained the rules to be observed in considering district electoral arrangements. They said that the Clerk's suggestions for the North and South Wards of Neath Town and for the Community of Briton Ferry did not recognise the existence of communities within the area, and failed to take into account:-

i. the reality of the Afan Valley/Cimla Roads as a community dividing line,

ii. that the two community wards of Penrhiwtyn and Melyncrythan have a close affinity and should be included in the same district ward;

iii. that the electors of Penrhiwtyn did not consider themselves part of the Community of Briton Ferry. They said that this was recognised by the Commission in the Special Community Review which proposed a separate Community for Briton Ferry and which excluded Penrhiwtyn.

They added that one of the existing North Ward councillors agreed with the Clerk's suggestion that the Cefn Saeson and Crynallt Wards should be merged because of their close affinity.

12. The Labour Party Group said that it was the view of the local members that Dylais and Onllwyn should not be merged for district electoral purposes. These areas had been separated for community council purposes and the two communities were very distinct and parochial in their attitude to local

Grŵp hefyd yr awgrym y dylid cyfuno Ward Gogledd Coed-ffranc a Dyffryn Clydach, gan nad oedd unrhyw berthynas, meddent, rhwng yr ardaloedd hyn ac nad oedd cynrychiolaeth o un cynghorydd dosbarth yn addas oherwydd y ddaearyddiaeth leol. Anogent, felly, gynrychiolaeth ar wahân ar gyfer Dyffryn Clydach, ardal a fyddai'n parhau i fod â'i chyngor cymdeithas ei hun. Gofynnent hefyd am i Wardiau Gogledd a De Cymdeithas Blaenhonddan aros yn un ward at ddibenion etholiadau dosbarth, ac i bentref Blaen-gwrach gael ei gynrychioli ar wahân a pheidio â chael ei gyfuno â Ward y Canol Gorllewinol yng Nghymdeithas Glyn-nedd oherwydd nad oedd unrhyw berthynas ddaearyddol rhwng yr ardaloedd hynny.

Cynigion Drafft

13. Cyhoeddwyd ein Cynigion Drafft ar 26 Mawrth 1981. Dywedwyd ein bod yn credu bod maint y cyngor presennol fwy neu lai'n gywir ar gyfer Bwrdeistref Nedd ac mai'n prif dasg oedd dosbarthu'r gynrychiolaeth er mwyn sicrhau cydbwysedd da, gan gymryd i ystyriaeth amcangyfrifon y Cyngor Bwrdeistref o nifer yr etholwyr ymhen pum mlynedd a chan weithio o fewn cyfyngiadau Atodiad 11.

14. Cynigiwyd y dylai'r Fwrdeistref fod â chyngor o 34 aelod, un yn fwy nag ar hyn o bryd, wedi'u hethol o blith 22 ward a phob ward wedi'i chynrychioli gan nifer y cynghorwyr yr oedd ganddi hawl iddynt.*

Crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd ynglŷn â'r Cynigion Drafft

15. Ar wahân i awgrymiadau ynglŷn ag enwau, dywedai Cyngor Bwrdeistref Nedd nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y Cynigion Drafft mewn cysylltiad â'r wardiau canlynol:- Y Creunant, Glyn-nedd, Blaen-gwrach, Y Clun, Resolfen, Pelenna, Tonna, Aberdulais, Llangatwg, Dyffryn Clydach, Llanilltud Fach, Penrhiwtyn, Dwyrain Llansawel a Gorllewin Llansawel. Yr oedd eu sylwadau ar y wardiau eraill fel a ganlyn:-

(a) Dulais — Nodent y cydnabyddid yn yr Arolwg Cymdeithas Arbennig fod hunaniaethau ar wahân gan Gymdeithasau Dulais ac Onllwyn, a dyma farn y Cyngor o hyd. Er y cytunent fod cryn wahaniaeth rhwng niferoedd yr etholwyr yn y ddwy gymdeithas hyn, yr oeddent o'r farn y byddai un ward ddau-aelod yn rhy helaeth gan fod pellter, o'r

*Gweler y troednodyn i Atodiad 2.



government affairs. The Group also opposed the suggestion that the North Ward of Coedffranc should be merged with Dyffryn Clydach since they said that there was no affinity between these areas and the terrain of the area made it difficult for it to be covered by one district councillor. They therefore urged separate representation for Dyffryn Clydach, an area that would continue to have its own community council. They also requested that the North and South Community Wards of the Community of Blaenhonddan should remain as one ward for district electoral purposes and that the village of Blaengwrach should be separately represented and not merged with the West Central Ward of the Community of Glynneath because there was no geographical affinity between these areas.

Draft Proposals

13. Our Draft Proposals were published on 26 March 1981. We said that we considered the size of the present council to be approximately right for the Borough of Neath and that our main task was to distribute the representation in such a way as to achieve good parity, taking into account the Borough Council's estimates of the size of the electorate five years hence, and working within the constraints imposed by Schedule 11.

14. We proposed that the Borough should have a council of 34 members, one more than at present, elected from 22 wards, each ward being represented by the number of councillors to which it was entitled.*

Summary of representations received on Draft Proposals

15. Neath Borough Council said that apart from suggestions relating to names they had no observations on the Draft Proposals in respect of the following wards:- Crynant, Glynneath, Blaengwrach, Clyne, Resolven, Pelenna, Tonna, Aberdulais, Cadoxton, Dyffryn Clydach, Llantwit, Penrhiwtyn, Briton Ferry East and Briton Ferry West. Their observations on the other wards were as follows:-

(a) Dylais — They said that in the Special Community Review the Communities of Dylais and Onllwyn were recognised as having separate identities and this remained the view of the Council. Whilst it was recognised that there was a significant disparity between the electorate in these two communities, they were of

*See footnote to Appendix 2.

dwyrain i'r gorllewin, o ryw 6.5 milltir. Awgryment ddwy ward un-aelod, Dulais ac Onllwyn, gan ddweud y byddai hyn yn tueddu i gryfhau cysylltiadau lleol a diogelu'r ymwybyddiaeth gref o gymuned a oedd yn ddiau yn bodoli.

(b) De a Gogledd Bryn-coch — At ei gilydd, derbynient farn Cyngor Cymdeithas Blaenhonddan y dylai'r gymdeithas ffurfio un ward dri-aelod.

(c) Coed-ffranc — Yr oedd y cynnig y dylai Ward Ddosbarth Gogledd Coed-ffranc gael ei chynrychioli gan un aelod yn dderbyniol. Awgryment, fodd bynnag, y dylai'r pedair ward gymdeithas arall ffurfio un ward ddosbarth dri-aelod gan y byddai trefniant o'r fath yn tueddu i gryfhau cysylltiadau lleol yn yr ardal hon - prif ardal fasnachol a phreswyl y cylch.

(d) Cefnsaeson a Mount Pleasant — Dywedent iddynt benderfynu derbyn ffordd Cwm Afan/Cimla yn llinell rannu rhwng wardiau gan ei bod yn adnabyddus a sefydledig ac, er mwyn diogelu cysylltiadau lleol, awgryment y dylai Wardiau Cefnsaeson a Gnoll yng Nghymdeithas Castell-nedd ffurfio ward ddosbarth ddau-aelod ac y dylai Wardiau Cymdeithas Y Creunant a Mount Pleasant ffurfio ward ddosbarth dri-aelod. Awgryment hefyd y dylai'r ddwy ward hyn gael eu galw "Cefnsaeson a Gnoll" ac "Y Creunant a Mount Pleasant".

Teimlai'r Cyngor Bwrdeistref y dylid defnyddio cyd-enwau'r cymdeithasau neu'r wardiau cymdeithas, gan y byddai hynny'n ei gwneud yn haws i'r etholwyr a fyddai fel arfer yn pleidleisio i'r un wardiau mewn etholiadau cyngor bwrdeistref a chyngor cymdeithas ar yr un diwrnod. Awgryment yr enwau canlynol:-



the opinion that a single two-member ward would be excessive in size with a distance, from east to west, of approximately 6.5 miles. They suggested two single-member wards, Dylais and Onllwyn, saying that this would tend to strengthen local ties and preserve the strong community identity which undoubtedly exists.

(b) Bryncoch South and North — "On balance" they accepted the views of Blaenhonddan Community Council that the community should form a single three-member ward.

(c) Coedffranc — The proposal for Coedffranc North District Ward to be represented by one member was acceptable. They suggested, however, that the remaining four community wards should form one three-member district ward as this arrangement would tend to strengthen local ties in this, the main commercial and residential part of the area.

(d) Cefn Saeson and Mount Pleasant — They said that they had decided to accept the Afan Valley Road/Cimla Road as a dividing ward line since it was well-known and established, and in order to maintain local ties they suggested that the Cefn Saeson and Gnoll Wards of the Community of Neath should form a two-member district ward and that Crynallt and Mount Pleasant Community Wards should form a three-member district ward. They also suggested that these two wards should be known as "Cefn Saeson & Gnoll" and "Crynallt & Mount Pleasant."

The Borough Council felt that joint names of the communities or community wards should be used since it made it easier for the electors who would usually be voting for the same wards at Borough Council and community elections on the same day. They suggested the following names:-

| | |
|---|---|
| Blaen-gwrach | Blaen-gwrach a Chanol Gorllewinol Glyn-nedd |
| Y Clun | Y Clun a De Resolfen |
| Resolfen | Gogledd Resolfen |
| Aberdulais | Aberdulais a Chil-ffriw |
| Llanilltud Fach | Llanilltud Fach a'r Castell |
| Cefnsaeson | Cefnsaeson a Chrynallt |
| Mount Pleasant | Mount Pleasant a Gnoll |
| Penrhiwtyn | Penrhiwtyn a Melincryddan |
| Dwyrain Llansawel | Craigydarren a Chwrt-sart |
| Gorllewin Llansawel | Brynhyfryd a Shelone Wood |

Os defnyddid enwau byrrach ar gyfer wardiau dosbarth, fodd bynnag, yr oedd yn well gan y Cyngor "Melincryddan" na "Phenrhiwtyn".

16. Cytunai Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg â sylwadau'r Cyngor Bwrdeistref ynglŷn â'r Cynigion Drafft, ac eithrio yn achos Coed-ffranc lle y teimlid y dylai Cymdeithas Coed-ffranc fod yn un ward ddosbarth, fel ar hyn o bryd, gan ethol pedwar aelod.

17. Derbyniai Cyngor Cymdeithas Blaenhonddan y trefniadau etholiadol arfaethedig ar gyfer Wardiau Llangatwg, Cil-ffriw ac Aberdulais o fewn eu cymdeithas hwy ond gwrthwynebent y rhai ar gyfer dwy ward Bryn-coch. Yr oedd y Cyngor o'r farn na ddylid rhannu Bryn-coch yn ddwy ward at ddibenion etholiadau dosbarth ond y dylid ei gadw'n un ward wedi'i chynrychioli gan dri aelod a fyddai wedyn yn gallu perthnasu'u meddyliau a'u diddordebau i ardal Bryn-coch yn ei chyfanrwydd. Nodent i gryn nifer o dai gael eu codi ym Mryn-coch yn ystod y blynyddoedd diwethaf, i lawer o'r anheddau newydd gael eu meddiannu, neu y byddent yn cael eu meddiannu, gan bentrefwyr o Fryn-coch oedd â chysylltiadau cymuned cryf, ac, er gwaethaf yr adeiladu newydd, y byddai'r ymwybyddiaeth o berthyn i gymuned yn parhau. Felly, ni fyddai rhannu Bryn-coch yn ddwy ward ond yn polareiddio diddordebau cymuned, er drwg i'r rheiny.

18. Gwrthwynebai Cyngor Cymdeithas Resolfen y cynnig i sefydlu dwy ward ddosbarth ar wahân ar gyfer Cymdeithasau Y Clun a Resolfen. Dywedent y câi'r pentref ei amddifadu o gynghorydd i bob pwrpas, gan mai'r duedd fyddai i bob cynghorydd edrych ar ôl buddiannau ei ward ei hun yn hytrach na rhoi sylw i anghenion yr holl gymdeithasau dan sylw fel ar hyn o bryd. Ymhellach, ni fyddai cynghorydd arall ar gael mewn achos o anhwyldeb dros amser maith. Daethant



| | |
|---|---|
| Blaengwrach | Blaengwrach and Glynneath West Central |
| Clyne | Clyne and Resolven South |
| Resolven | Resolven North |
| Aberdulais | Aberdulais and Cilfrew |
| Llantwit | Llantwit and Castle |
| Cefn Saeson | Cefn Saeson and Crynallt |
| Mount Pleasant | Mount Pleasant and Gnoll |
| Penrhiwtyn | Penrhiwtyn and Melincrythan |
| Briton Ferry East | Craig-y-Darren and Cwrt Sart |
| Briton Ferry West | Brynhyfryd and Shelone Wood |

If, however, shorter names were used for district wards, the Council preferred Melyncrythan to Penrhiwtyn.

16. West Glamorgan County Council agreed with the Borough Council's observations on the Draft Proposals with the exception of Coedffranc where it was felt that the Community of Coedffranc should be a single district ward as at present returning four members.

17. Blaenhonddan Community Council accepted the proposed electoral arrangements for the Cadoxton, Cilfrew and Aberdulais wards of their community but were opposed to those for the two Bryncoch Wards. The Council were of the opinion that Bryncoch should not be divided into two wards for district electoral purposes but should be retained as one ward and represented by three members who would then be able to direct their thoughts and interests to the Bryncoch area as a whole. They said that considerable house-building had taken place in Bryncoch in recent years, and that a large number of the new properties had been and would be occupied by Bryncoch villagers with strong community ties and that despite the new building, the sense of belonging to a community would remain. Therefore to divide Bryncoch into two wards would only serve to polarize community interests to their detriment.

18. Resolven Community Council objected to the proposal for two separate district wards covering the Communities of Clyne and Resolven. They said that in effect the village would be deprived of a councillor since the tendency would be for each councillor to look to the interests of his own ward rather than to the needs of all the communities concerned as at present. Furthermore, there would not be an alternative councillor available in the case of prolonged sickness. They concluded that the proposals were merely being made in the interest of some "mathematically tidy arrangement" instead of the wishes of the electorate.

i'r casgliad bod y cynigion yn cael eu gwneud er mwyn rhyw drefniant "mathemategol daclus" yn unig, yn hytrach nag yn unol â dymuniadau'r etholwyr.

19. Yr oedd y Cynghorydd J Warman, aelod Ward y Gogledd ar y Cyngor Bwrdeistref, yn cefnogi'r Cynigion Drafft ar gyfer y ddwy ward ddosbarth newydd, Cefnsaeson a Mount Pleasant, a groesai ffordd Cwm Afan yn hytrach na'r ffin bresennol a ddilynai'r ffordd ei hun. Dywedai fod y trefniadau etholiadol presennol yn peri anhawster a rhwystredigaeth i'r etholwyr gan fod y gymdeithas ar y pryd wedi'i rhannu gan brif ffordd Cwm Afan.

20. Cefnogai Cymdeithas Canolfan Gymunedol Cimla awgrym y Cyngor Bwrdeistref ynglŷn â newidiadau i'r ffiniau etholiadol a effeithiai ar Wardiau presennol y Gogledd a'r De yn ardal Cyngor Bwrdeistref Nedd. Fel corff etholedig yn cynrychioli'r ddwy ochr i ffordd Cwm Afan, lle'r oedd yr holl drigolion yn ystyried eu bod yn perthyn i Gymdeithas Cimla, yr oedd Cymdeithas y Ganolfan Gymunedol yn cefnogi unrhyw gynnig a fyddai'n eu cyfuno. Yr oeddent o'r farn, fodd bynnag, nad oedd y cynigion yn mynd yn ddigon pell i ymgorffori'r holl drigolion a deimlai eu bod yn perthyn i Gimla ac awgryment, felly, dynnu'r ffin yn fras rhwng ardaloedd Swyddfa Bost Cimla a Gnoll Gates.

21. Yr oedd pump o aelodau Ward y De ar Gyngor Cymdeithas Castell-nedd yn gwrthwynebu'r trefniadau etholiadol arfaethedig ar gyfer Ward bresennol y De. Cytunent y dylai Wardiau Melincryddan a Phenrhiwtyn yng Nghymdeithas Castell-nedd ffurfio ward ddosbarth gan fod cydberthynas gymunedol bendant. Gwrthwynebent y cynnig y dylai Wardiau Cymdeithas Mount Pleasant a Gnoll ffurfio ward ddosbarth, a hefyd y cynnig y dylai Wardiau Cymdeithas Crynallt a Chefnsaeson ffurfio ward ddosbarth arall, gan eu bod o'r farn nad oedd unrhyw gysylltiad rhwng y wardiau arfaethedig hynny. Awgryment hwy y dylai Wardiau Cymdeithas Mount Pleasant a Chrynallt ffurfio un ward ddosbarth ac y dylai Wardiau Cymdeithas Cefnsaeson a Gnoll ffurfio ward ddosbarth arall, gan y byddai hyn yn cydnabod y gydberthynas a fodolai o fewn pob un o'r ardaloedd dan sylw.

22. Yr oedd Cangen Ward y Gogledd o Blaid Lafur Castell-nedd o blaid y cynigion ar gyfer ardal Cimla fel y byddai Wardiau Cefnsaeson a Chrynallt yng Nghymdeithas Castell-nedd yn ffurfio un ward ddosbarth wedi'i chynrychioli gan ddau aelod.

23. Gwrthwynebai Plaid Lafur Ward Resolfen y cynnig i rannu Resolfen yn ddwy ward ddosbarth, Gogledd a De, a Ward y De yn dod yn rhan o'r Clun at ddibenion etholiadau dosbarth. Nodent y byddai rhyw 700 o etholwyr yn pleidleisio yn Ward Ddosbarth Y Clun, dair milltir i ffwrdd. Ymhellach



19. Councillor J Warman, the North Ward Member on the Borough Council, supported the Draft Proposals for the two new district wards, Cefn Saeson and Mount Pleasant, which crossed the Afan Valley Road rather than the present boundary line which was along the road. He said that the present electoral arrangements caused difficulty and frustration to the electors as the community at the moment was divided by the main Afan Valley Road.

20. Cimla Community Centre Association supported the Borough Council's suggestion regarding alterations in the electoral boundaries affecting the present North and South Wards in the Neath Borough Council area. As an elected organisation representing both sides of the Afan Valley Road, where all the residents considered themselves to belong to the Community of Cimla, the Association supported any proposal which unified them. They were, however, of the opinion that the proposals did not go far enough to incorporate all the residents who felt that they belonged to Cimla and they therefore suggested that the boundary should be drawn roughly between the Cimla Post Office and the Gnoll Gates areas.

21. Five South Ward Members of Neath Community Council objected to the proposed electoral arrangements for the existing South Ward. They agreed that the Melyncrythan and Penrhiwtyn Wards of the Community of Neath should form a district ward since there was a definite community affinity. They objected to the Mount Pleasant and Gnoll Community wards forming a district ward and also to the Crynallt and Cefn Saeson Community Wards forming another district ward as they were of the opinion that there was no affinity within these proposed wards. They suggested that the community wards of Mount Pleasant and Crynallt should form one district ward and that the Cefn Saeson and Gnoll Community wards should form another district ward since this would recognise the affinity within each of these areas.

22. The North Ward Branch of the Neath Labour Party favoured the proposals for the Cimla area, whereby the Cefn Saeson and Crynallt Wards of the Community of Neath formed one district ward represented by two members.

23. The Resolven Ward Labour Party objected to the proposal to divide Resolven into two district wards, North and South, the South Ward becoming part of Clyne for district purposes. They said that some 700 electors would be voting in the Clyne district ward, three miles away. Furthermore, they were deeply disturbed that to create two separate wards would be a division of family life and responsibilities in what was one village community. Mr D R Coleman MP supported

parai aflonyddwch mawr iddynt y byddai creu dwy ward ar wahân yn rhannu bywyd teuluol a chyfrifoldebau mewn cymuned a oedd yn un gymuned bentrefol. Yr oedd Mr D R Coleman AS yn cefnogi'r sylwadau hyn ac anogai y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r cynnig oherwydd y chwalfa gymdeithasol a achosid trwy rannu Ward bresennol Resolfen.

24. Yr oedd Cangen Glyn-nedd o Blaid Lafur Castell-nedd yn gwrthwynebu'r cynigion ar gyfer Glyn-nedd a Blaen-gwrach. Yr oedd Blaen-gwrach wedi'i rannu'n naturiol oddi wrth Lyn-nedd gan Afon Nedd ac ers llawer blwyddyn yr oedd y ddau bentref wedi datblygu'n gymunedau gwahanol iawn ac ar wahân. Credent y byddai rhannu etholwyr Ward y Canol Gorllewinol at ddibenion etholiadol yn andwyol i gydberthynas naturiol yr ardaloedd hyn. Awgryment, felly, y dylai Cymdeithas Glyn-nedd ffurfio ward ddosbarth ddau-aelod ac y dylai Cymdeithas Blaen-gwrach ffurfio ward un-aelod fel ar hyn o bryd, neu, fel arall, y dylid cynnwys trigolion Pontwalby a Glangwrelych yn Ward Blaen-gwrach er mwyn cynyddu nifer yr etholwyr ac oherwydd y byddai Pontwalby cyn hir yn dod yn rhan o ardal Glyn-nedd/Blaen-gwrach.

25. Mynegai Cangen Bryn-coch o Blaid Cymru eu cefnogaeth i'r Cynigion Drafft ynglŷn â ffiniau'r wardiau yn ardal Blaenhonddan. Nodent fod tueddiad naturiol i'r gymuned yn y pentref ei hun (Bryn-coch) sefyll ar wahân i weddill yr ardal ac nad oedd ond yn synnwyr cyffredin, yn weinyddol, felly, i rannu'r ardal yn ddwy ward ddosbarth. Byddai un rhanbarth etholiadol, wedi'i gynrychioli gan dri aelod, yn eithriadol o letchwith ei reoli a hefyd yn andwyol i les y bobl.

26. Derbyniai Urdd Trethdalwyr Castell-nedd y trefniadau wardio ar gyfer Cymdeithas Castell-nedd. Awgryment hefyd y dylai Wardiau arfaethedig Llanilltud Fach, Cefnsaeson, Mount Pleasant a Phenrhiwtyn gael eu galw Gogledd Castell-nedd, Cimla, De Castell-nedd a Dwyrain Castell-nedd, gan fod yr enwau hyn yn syml, disgrifiadol a chryno.

27. Ni wnaeth y Cyngor Sir unrhyw sylwadau ynglŷn ag effaith ein cynigion ar Arolwg Etholiadol y Sir. Yr oedd y Cyngor Bwrdeistref, fodd bynnag, yn fodlon y byddai'n bosibl creu rhaniadau addas ar gyfer etholiadau sirol, yn seiliedig ar 13 aelod y Cyngor Sir fel ar hyn o bryd.

## Asesiad

28. Derbyniwyd yn gyffredinol y Cynigion Drafft ar gyfer Wardiau Y Creunant, Pelenna, Tonna, Aberdulais, Llangatwg, Dyffryn, Dwyrain Llansawel a Gorllewin Llansawel. Yr ydym, felly, yn eu cadarnhau fel ein Cynigion Terfynol.



these views and urged that further consideration should be given to this proposal because of the social upheaval that would be caused by the breaking up of the existing Resolven Ward.

